Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Prosiect Carbon Bositif

CNC yn datblygu i fod yn esiampl mewn rheolaeth carbon a rhannu arferion gorau i'w defnyddio ar draws sector cyhoeddus Cymru'



**Teitl y prosiect:** Gwella ein cyfleusterau i hybu teithio egnïol a chynaliadwy

## Disgrifiad


Fel rhan o'i ymrwymiad i leihau ei effaith carbon ar er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn annog ei staff i ddewis dulliau teithio egnïol a chynaliadwy, gan gynnwys beicio neu gerdded ar gyfer teithiau cysylltiedig â gwaith pryd bynnag y bo hynny'n opsiwn ymarferol. Felly, mae ei gwneud mor hawdd â phosibl i weithwyr wneud hynny yn hollbwysig.

Un dull o'r fath yr ydym wedi'i gymryd tuag at annog teithio llesol ac i wneud yr opsiwn hwn yn fwy hygyrch i staff fu uwchraddio'r cyfleusterau cawod yn ein swyddfa yn Nhrefynwy, yn dilyn cais gan dîm Cyfleusterau'r safle.

## Dull

Roedd gan brosiect Carbon Bositif CNC gyllideb o £10,000 at ddibenion cefnogi prosiectau effeithlonrwydd ynni a theithio egnïol ar raddfa fach yn y sefydliad, a hyrwyddwyd hyn yn fewnol trwy dargedu timau fel Cyfleusterau a gwahodd bidiau am gyllid gan brosiectau posibl.

Un o'r ymatebion a dderbyniwyd oedd cais y tîm Cyfleusterau yn swyddfa Trefynwy, oedd yn awyddus i gael gwared â'r uned gawod oedd ganddynt ar y safle a chael un newydd yn ei lle er mwyn annog mwy o staff i gymryd rhan mewn teithio llesol a chynaliadwy. Byddai hefyd o fudd i staff y mae eu gwaith yn golygu eu bod yn gwlychu neu'n trochi (mynd yn fudr).



Roedd y gawod bresennol yn hen, a'r ciwbicl yn fach iawn ac yn llwydni i gyd, i'r graddau y credid ei bod yn rhwystro pobl rhag cerdded neu feicio i'r swyddfa, am nad oeddent am ei defnyddio.

Roedd y tîm eisoes wedi cysylltu â chontractwyr atgyweiriadau a chynnal a chadw am ddyfynbris i wneud y gwaith, a phan gawsant wybod am gyllideb Carbon Positif, penderfynwyd gwneud cais am gyfran ohono i ariannu'r prosiect.

Ar ôl pwysleisio manteision carbon posibl disodli'r gawod bresennol, cymeradwywyd eu cais, a gosodwyd y gawod fis Mawrth 2019 gan gontractwyr, gyda'r lleiaf posibl o darfu ar y staff.

## Cyfanswm cost y prosiect:

## £ 2,005 heb gynnwys TAW

## Cyfle arbed carbon a gyfrifwyd

Yn 2017, datgelodd cyfrifo statws carbon net CNC fod tua 8% o'n hallyriadau wedi'u priodoli i deithio busnes a defnyddio tanwydd yn ein cerbydau (fflyd).

Er y bydd yn anodd mesur yr allyriadau a arbedwyd o ganlyniad i'r prosiect hwn, mwyaf a wnawn i leihau ein defnydd o gerbydau disel a phetrol drwy ddewis dulliau teithio gweithredol a chynaliadwy, mwyaf y byddwn yn lliniaru ein heffaith ar newid yn yr hinsawdd.



## Manteision ehangach

O ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, dyma'r Nodau Llesiant allweddol mae'r prosiect wedi cyfrannu atynt:
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
- Cymru iachach

Yn ogystal â helpu i leihau ein hallyriadau sy'n gysylltiedig â theithio busnes, ac ôl troed carbon cyffredinol ein sefydliad, gall cymryd rhan mewn teithio egnïol fel cerdded a beicio wella ffitrwydd yn sylweddol, yn ogystal ag iechyd a lles cyffredinol.

## Staff a gymerodd ran

Tîm Cyfleusterau (Trefynwy)

Tîm Carbon Bositif

Tîm Technegol Cyfleusterau

## Canlyniadau



Lle roedd yr hen uned gawod yn rhwystr i staff oedd eisiau dewis dulliau teithio egnïol, mae'r un newydd yn ei gwneud yn llawer haws iddynt wneud hynny. Gall hyn nid yn unig leihau ein hallyriadau, ond hefyd wella ffitrwydd a lles yn gyffredinol.

Dywedodd Barbara Morris, Cynorthwy-ydd Gweithrediadau Cyfleusterau yn Nhrefynwy: "Mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr. Mae tipyn o bobl bellach yn seiclo i'r gwaith ac yn mwynhau cael cawod ar ôl cyrraedd. "

Yn ddiweddar, cymerodd tua 60 aelod o staff ran yn nhriathlon cyntaf CNC Trefynwy, a gynhaliwyd er budd Sefydliad Ted Senior, sy'n ceisio mynd i'r afael â materion iechyd meddwl ymhlith myfyrwyr a phobl ifanc, ac elusen ganser Felindre.

"Fe gawson ni nifer o bobl yn hyfforddi ar gyfer y triathlon a gynhaliwyd yma yn ddiweddar ac mae llawer ohonynt yn cadw i fynd gyda'r hyfforddiant hwnnw gan eu bod eisiau aros yn heini," ychwanegodd Barbara. "Felly mae wedi bod yn ychwanegiad i'w groesawu'n fawr i ni yn Nhrefynwy ac wedi chwarae rhan fawr yn gwella ffitrwydd cyffredinol y staff ac wedi helpu i leihau ein hôl troed carbon."

## Tystiolaeth a gwybodaeth

Cynhaliwyd y prosiect hwn yn y cyd-destun mai un o'n hamcanion amgylcheddol ar gyfer 2019/22 yw dod yn Gyflogwr Beicio Cyfeillgar (CFE) cydnabyddedig, achrediad a ddyfernir gan Cycling UK.

I gael ein hachredu, mae'n rhaid i ni ddangos ein bod yn bodloni nifer o feini prawf penodol ar draws ystod o gategorïau, gan gynnwys Cyfathrebu, Gwasanaethau a Chyfleusterau.

Mae rhagor o wybodaeth am yr achrediad ar gael ar eu gwefan: www.cyclinguk.org/cyclefriendlyemployer



**Dysgu**

Yr her fwyaf a wynebwyd oedd pwysau amser yn unig.

Er bod rhaid gwario'r gronfa ei hun erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2018/19, a gofynnwyd i'r holl bartïon a oedd wedi gwneud cais am gyfran o'r arian roi sicrwydd y byddai'r holl waith yn cael ei gwblhau ac y byddai'r arian yn cael ei wario erbyn 31 Mawrth, pan ddaeth hi'n amser cyflawni, haws oedd dweud na gwneud.

Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, roedd y rhan fwyaf o'r partïon dan sylw yn gorfod jyglo gwahanol ddyddiadau cau eraill, gyda'r risg y byddai'r gwaith yn rhedeg i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd ac na fyddai'r Prosiect Carbon yn cael cario'r arian ymlaen i ariannu'r prosiect bryd hynny. Nid oeddem ychwaith yn ymwybodol y byddai anfonebau'r contractwr ar gyfer prosiectau gwahanol yn cael eu cyfuno cyn eu cyflwyno, ac achosodd hyn beth oedi.

Er bod modd cyflawni'r gwaith yn llwyddiannus, o ran dysgu, yn y dyfodol efallai y bydd angen i'r tîm Carbon Bositif ddechrau ar y broses (fel hyrwyddo a gwahodd ceisiadau) yn gynt os yn bosibl, a sicrhau ein bod yn gwbl ymwybodol o beth i'w ddisgwyl gyda threfniadau anfonebu neu dalu.